

Cofnodion Cyfarfod Arbennig o Bwyllgor Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd ar nos Wener, 5, Mawrth, 2021 drwy gyfrwng Zoom

Presenol: Dwynwen (DP), Iolo Roberts (IPR), Dilys (DAP), Steve (SW), Iona (IE), Gwyn (GW), Raymond (RG),

Ymddiheuriadau: Iolo ap Gwynn, Eirwen

1.	<p><u>STRATEGAETH PARCIO A THRAFNIDIAETH GYNALIADWY YR WYDDFA AC OGWEN.</u></p> <p>Galwyd y cyfarfod arbennig gan fod Partneriaeth yr Wyddfa wedi bod yn ymgynghori ar gynllun drafft i ddatblygu Strategaeth Parcio a Thrafnidiaeth Gynaliadwy ar gyfer beth a elwir yn ardal craidd y Parc Cenedlaethol sef ardaloedd yr Wyddfa ac Ogwen.</p> <p>Dywedwyd fod y strategaeth yn anelu at wella mynediad a chysylltedd yn yr ardaloedd yma ac eu bod yn gofyn i gymunedau lleol ffurfio'r strategaeth a'u helpu i gynllunio a darparu gwelliannau i faterion pwysig parcio, trafndiaeth gyhoeddus, a llwybrau cerdded a seiclo yn yr ardal. Cynhaliwyd nifer o weithdai cymunedol ar y strategaeth ac fe nodwyd bod nifer o aelodau wedi eu mynychu..</p> <p>Roedd y cyfnod ymgynghori yn dod i ben ym mis Mawrth.</p> <p>Ar ôl trafod y mater cytunwyd</p> <p>i. na fyddai'n addas i'r Pwyllgor ymateb i'r rhan yma o'r ymgynghoriad ar y Strategaeth ond y dylid cysylltu â'r Bartneriaeth a gofyn iddynt a fyddai modd sicrhau fod y Clwb yn gallu cymryd rhan mewn unrhyw ymgynghoriad a fydd yn cael ei gynnal ganddynt, gyda chymdeithasau gwirfoddol/awyr agored ac ati, ar y cynllun i'r dyfodol;</p> <p>ii. dylid gyrru nodyn i'r aelodau yn dwyn eu sylw at y Cynllun a fydd yn effeithio ar weithgareddau cerdded i'r dyfodol yn yr ardal bwysig yma ac yn nodi bod yr ymgynghoriad ar lein ar agor tan 31 Mawrth, 2021.</p>	
-----------	--	--